**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **5 Mehefin 2023** |
| **Teitl:** | **Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |

**Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?**
Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

**Y Flaenraglen Waith**
Bydd Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

**Argymhellion:**

1) ystyried, adolygu a diweddaru'r Flaenraglen Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 25 May 2023 |
| **Acronymau:** | |

Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2023/24

| Dyddiad | Eitem |
|---|---|
| 19 Ebrill 2023 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Diweddariad ar recriwtio aelod annibynnol<br><br>Penodi Cadeirydd/ Is-gadeirydd<br><br>Cofnod o’r Camau Gweithredu<br><br>Adolygu’r datganiad o weledigaeth<br><br>Adroddiad ar newid i'r ffurflen gollyngiad |
| 28 Mehefin 2023 | Cofnodion<br><br>Cofnod o’r Camau Gweithredu<br><br>Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br>• Cyng John Roberts<br>• Cyng Marc Davies<br>• Cyng Rhodri Evans x2<br><br>Adroddiad Blynyddol y pwyllgor<br><br>Dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol (eitem sefydlog), diweddariad ar y gweithdy gydag arweinwyr y grwpiau ar 15/5/23<br><br>Penodi Is-gadeirydd<br><br>Recriwtio aelod annibynnol (Chwefror 2024)<br><br>Canlyniadau hunanwerthuso<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adroddiad Penn<br><br>Datganiad Gweledigaeth |

| | |
|---|---|
| | Hyfforddiant gyda Chynghorau T/Cymuned yn 2024<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus |
| 15 Tachwedd 2023 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Cofnod o’r Camau Gweithredu<br><br>Arweinwyr grwpiau gwleidyddol – eitem sefydlog (nid o reidrwydd yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod)<br><br>Cysoni trothwyon rhoddion/lletygarwch ar draws holl Awdurdodau Cymru<br><br>Blaenoriaethau'r Pwyllgor yn y dyfodol |
| 10 Ionawr 2024 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus<br><br>Hyfforddiant<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Cofnod o’r Camau Gweithredu<br><br>Arweinwyr grwpiau gwleidyddol – eitem sefydlog (nid o reidrwydd yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod) |
| 6 Mawrth 2024 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| | Hyfforddiant<br><br>Adroddiad chwarterol ar dueddiadau cwynion<br><br>Cofnod o’r Camau Gweithredu<br><br>Arweinwyr grwpiau gwleidyddol – eitem sefydlog (nid o reidrwydd yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod) |